**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R CASGLIADAU YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID:
CRAFFU AR AIL GYLLIDEB ATODOL LLYWODRAETH CYMRU 2017-18**

---

**Casgliad 1**
**Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch sut y mae dyraniadau newydd sylweddol o fewn y gyllideb atodol wedi cael eu blaenoriaethu a sut y mae Ffyniant i Bawb, y Rhaglen Lywodraethu neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi herio penderfyniadau buddsoddi.**

Mae Cyllidebau Atodol yn rhan safonol o'r broses rheolaeth ariannol flynyddol sy'n darparu cyfleoedd i ddiwygio cynlluniau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Maent yn dechnegol eu natur yn bennaf, ac yn cynnwys addasiadau i'r Gyllideb Derfynol a gymeradwywyd cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

Mae'r broses o gynllunio'r gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol yn canolbwyntio ar y ffordd y mae dyraniadau yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a dylanwad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan mai pwrpas cyllidebau atodol yw cynnig addasiadau i'r cynlluniau hynny, mae'n canolbwyntio'n fwy priodol ar fynd i'r afael â'r pwysau a'r cyfleoedd sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

Fodd bynnag, ni chaiff y penderfyniadau i ddyrannu o fewn cyllideb atodol eu gwneud yn gwbl annibynnol. Wrth i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, darparodd enghreifftiau o effaith Ffyniant i Bawb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar y penderfyniadau hynny.

Yn flaenorol, cydnabuom fod cyflwyno gwybodaeth gyllidebol ac ymwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn broses o esblygu. Byddwn yn adlewyrchu casgliad y Pwyllgor gyda'r bwriad o gynnwys gwybodaeth bellach yng nghyllidebau atodol y dyfodol.

**Casgliad 2**
**Mae'r Pwyllgor yn dod i'r casgliad, er mwyn galluogi gwaith craffu mwy tryloyw ar benderfyniadau o'r fath, bod angen darparu manylion ariannol mwy penodol o ran sut y mae ymrwymiadau'n cael eu hariannu, er enghraifft, a yw ymrwymiadau'n cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn neu danwariant mewn meysydd eraill, pan fydd cyhoeddiadau o'r fath yn cael eu gwneud.**

Caiff cyhoeddiadau ynghylch dyraniadau cyllid yn ystod y flwyddyn eu gwneud gan Weinidogion Cymru fel rhan o'r broses arferol o reoli eu portffolios yn effeithiol er mwyn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

Gwneir asesiad o'r ffordd y caiff yr ymrwymiadau hynny eu hariannu wrth wneud y penderfyniad, a dylid ei gynnwys yn y cyhoeddiad. Fodd bynnag, bydd maint ac

amrywiaeth cyllideb Llywodraeth Cymru yn arwain yn anochel at newidiadau i'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn.

Rhan o rôl cyllidebau atodol, yn enwedig yr ail gyllideb atodol tuag at ddiwedd blwyddyn ariannol, yw cydgrynhoi'r symudiadau yn ystod y flwyddyn i bennu'r dull mwyaf effeithiol o ran cost ar gyfer ariannu gwariant Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i ffynonellau'r cyllid a allai fod wedi digwydd ers gwneud y cyhoeddiad yn cael eu nodi yn y gyllideb atodol.

**Casgliad 3**
**Mae'r Pwyllgor yn cydnabod cyfyngiadau'r cyllid trafodiadau ariannol, ond mae'n annog Ysgrifennydd y Cabinet i barhau i archwilio pob trywydd i ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael, o fewn rheolau Trysorlys y DU, p'un ai ar gyfer cynlluniau newydd, fel Cronfa Safleoedd sydd ar Stop Cymru, neu, er enghraifft, os yw taliadau yn y dyfodol ar gyfer cynlluniau presennol sy'n derbyn cyllid cyfalaf cyffredinol yn defnyddio'r cyllid trafodiadau ariannol sydd ar gael.**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhannau eraill o'r sector cyhoeddus i ganfod ffyrdd newydd ac arloesol o ddefnyddio cyllid trafodiadau ariannol orau. Rydym hefyd yn bwriadu gweithio gyda Thrysorlys EM i ystyried ym mha ffordd y mae'r cyfyngiadau ar ddefnydd yn effeithio ar Gyllideb Cymru.

Yn ddiweddar, cytunodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys i gais Llywodraeth Cymru am fwy o hyblygrwydd, a bydd bellach modd cario drosodd y cyllid trafodiadau ariannol heb ei wario o £90 miliwn a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2017. Mae hyn yn ychwanegol at y symiau y mae modd eu cario drosodd o dan drefniadau Cronfa Wrth Gefn Cymru.

**Casgliad 4**
**Roedd yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael hysbysiad cynnar o'r bwriad i geisio amrywiad i gyllidebau cymeradwy'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol, ac mae'n argymell y dull gweithredu hwn.**

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am reoli ac adrodd ar yr holl gyllid sydd ar gael drwy Gronfa Gyfunol Cymru, ac mae'n cytuno â'r Pwyllgor ei bod yn ddefnyddiol rhoi hysbysiad cynnar o'r amrywiadau i gyllidebau'r cyrff hynny sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae amrywiadau i'r cyllidebau hynny yn effeithio'n uniongyrchol ar yr arian sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac mae cynnal trafodaethau cynnar ar unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â chyrff a ariennir yn uniongyrchol yn ein helpu i reoli'r effeithiau hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl bwysig y Pwyllgor o ran craffu ar unrhyw geisiadau i amrywio'r cyllidebau hynny mewn ffordd gadarn a manwl.